

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2021 No. 9

Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021

RHAN 8

DIWYGIADAU I REOLIADAU ADDYSG (BENTHYCIADAU AT RADD DDOETHUROL ÔL-RADDEDIG) (CYMRU) 2018

Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018

52. Mae Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018(1) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 53 i 57.

53. Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o “person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros”, ym mharagraff (a)(i), yn lle “diogelwch dyngarol neu ganiatâd” rhodder “caniatâd”.

54. Yn lle rheoliad 8(b) rhodder—

“(b) bod y myfyriwr, neu ei briod, ei bartner sifil, ei riant, priod ei riant neu bartner sifil ei riant yn cael ei gydnabod yn ffoadur, yn dod yn berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth, yn dod yn berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros neu’n dod yn berson y rhoddwyd diogelwch dyngarol iddo o dan baragraff 339C o’r rheolau mewnfudo;”.

55. Yn Atodlen 1, ar ôl paragraff 4 (ffoaduriaid ac aelodau o’u teuluoedd) mewnosoder—

“Personau a ddiogelir ac aelodau o’u teuluoedd

4A.—(1) Person—

- (a) y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir;
- (b) sy’n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a’r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly ers i’r caniatâd hwnnw gael ei roi i’r person; ac
- (c) sy’n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

- (a) sy’n briod neu’n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir;
- (b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros, yn briod neu’n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir; ac

(1) O.S. 2018/656 (Cy. 124), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/814 (Cy. 165); O.S. 2019/235 (Cy. 54); O.S. 2019/1094; O.S. 2019/1192 (Cy. 209); O.S. 2020/153 (Cy. 27); ac O.S. 2020/1302 (Cy. 287) (o ddiwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu, fel y diffinnir “IP completion day” gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1), adran 39(1) i (5)).

(c) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(3) Person—

(a) (i) sy'n blentyn i berson y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir, neu'n blentyn i briod neu i bartner sifil person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir; a

(ii) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros, yn blentyn i berson y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir neu'n blentyn i berson a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros, yn briod neu'n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir;

(b) a oedd o dan 18 oed ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros; ac

(c) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(4) Yn y paragraff hwn—

(a) ystyr “dyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros” yw'r dyddiad y gwnaeth person gais am ganiatâd i ddod i mewn neu i aros yn y Deyrnas Unedig sy'n arwain at berson yn dod yn berson y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir;

(b) ystyr “person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir” yw person a chanddo ganiatâd cyfredol i ddod i mewn neu i aros ar sail diogelwch dyngarol o dan baragraff 339C o'r rheolau mewnfudo.”

56. Yn Atodlen 1, ym mharagraff 5 (personau y rhoddwyd caniatâd iddynt aros fel personau diwladwriaeth ac aelodau o'u teuluoedd)—

(a) yn lle is-baragraff (1) rhodder—

“(1) Person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.”;

(b) ar ddiwedd is-baragraff (2)(a)(ii) mewnosoder “a”;

(c) ar ddiwedd is-baragraff (2)(b) yn lle “; ac” rhodder atalnod llawn;

(d) hepgorer is-baragraff (2)(c);

(e) ar ddiwedd is-baragraff (3)(b) mewnosoder “ac”;

(f) ar ddiwedd is-baragraff (3)(c) yn lle “; a” rhodder atalnod llawn;

(g) hepgorer is-baragraff (3)(d).

57. Yn Atodlen 1, ym mharagraff 6A (personau sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67)—

(a) ar ddiwedd is-baragraff (1)(a) mewnosoder “a”;

(b) ar ddiwedd is-baragraff (1)(b) yn lle “; ac” rhodder atalnod llawn;

(c) hepgorer is-baragraff (1)(c);

(d) ar ddiwedd is-baragraff (2)(b) mewnosoder “ac”;

(e) ar ddiwedd is-baragraff (2)(c) yn lle “; a” rhodder atalnod llawn;

(f) hepgorer is-baragraff (2)(d).